**DIM EMBARGO – I'W GYHOEDDI AR UNWAITH**

# DATGANIAD I'R WASG:

**EDRYCH YMLAEN AT GŴYL FACH Y FRO!**

Gyda dim ond 3 diwrnod tan Gŵyl Fach y Fro 2015, mae'r trefnwyr yn edrych ymlaen yn fawr i lwyfannu gŵyl gerddoriaeth Gymraeg ar Ynys y Barri ddydd Sadwrn yma. Gyda'r tywydd yn argoeli i fod yn braf, a'r arlwy gerddorol i gyd ar gael i'w fwynhau yn rhad ac am ddim, beth well i'w wneud ar brynhawn Sadwrn ym mis Gorffennaf?

Gŵyl Fach y Fro fydd yn agor rhaglen o ddigwyddiadau 'Penwythnosau Hwyl Ynys y Barri' y Cyngor, a dyma'r tro cyntaf erioed i berfformiadau Cymraeg gael eu cynnal fel rhan o'r rhaglen hwn. Caiff Gŵyl Fach y Fro ei drefnu gan Fenter Bro Morgannwg, gyda chefnogaeth Cyngor Bro Morgannwg a Chyngor Celfyddydau Cymru.

Bydd diwrnod llawn o gerddoriaeth byw gan Wonderbrass, Carwyn Ellis, Kizzy Crawford, Al Lewis a Kookamunga. Yn ogystal â hyn, bydd cannoedd o blant o ysgolion Cymraeg y Sir yn camu i'r llwyfan i berfformio drwy gydol y diwrnod. Mae'r amserlen llawn i'w gael ar y poster atodedig.

Mae'r Fenter wedi sefydlu Gigs Bach y Fro dros y flwyddyn ddiwethaf, sef calendr o nosweithiau celfyddydol rheolaidd ar draws y Fro, ac felly'r bwriad yw i gynnal yr ŵyl flynyddol yma fel dathliad pellach a phinacl i'r prosiect hwnnw, gan gyflwyno cerddoriaeth Gymraeg i gynulleidfa ehangach eto.

Dywedodd Bethan Elfyn:

*Mae'r newyddion am Gŵyl Fach y Fro 2015 yn ddatblygiad cyffrous iawn i'r ardal. Mae'n wych bod cerddoriaeth Cymraeg yn cael sylw a phlatfform cwbl newydd fel hyn ym Mro Morgannwg, ac fel un sy'n byw yn y Sir bellach, rydw i'n edrych ymlaen yn fawr i gael digwyddiad o'r fath ar fy stepen drws. Mae'r arlwy cerddorol yn cynnwys rhai o artistiaid mwyaf blaengar y sîn gerddoriaeth Gymraeg, ac fe fydd eu perfformiadau'n gosod naws hyfryd i'r ŵyl unigryw hwn ar lannau Ynys y Barri.*

Caiff yr ŵyl ei gynnal ar bromenâd ddwyreiniol yr Ynys – sydd wedi cael ei adnewyddu'n sylweddol dros y 2 flynedd ddiwethaf – ac mae'r atyniadau newydd, sy'n cynnwys cytiau traeth lliwgar, yn cynnig cefnlen trawiadol ac unigryw i'r ŵyl.

Mae'r Cynghorydd Chris Elmore hefyd yn croesawu sefydlu y digwyddiad newydd hwn:

*Rydyn ni'n falch iawn o'n rhaglen o ddigwyddiadau haf sy'n cael eu cynnal ar Ynys y Barri; digwyddiadau poblogaidd iawn o ganlyniad i arlwy amrywiol y rhaglen sy'n cael ei gynnig drwy gydol*

*gwyliau'r haf. Bydd y bartneriaeth newydd hwn gyda Menter Bro Morgannwg yn ehangu'r rhaglen ymhellach gan roi sylw a llwyfan i sefydliadau ac ysgolion Cymraeg lleol. Bydd Gŵyl Fach y Fro yn hybu'r defnydd o'r Gymraeg ar draws y Fro ac ar yr un pryd hyrwyddo Ynys y Barri fel lle hyfryd i ymweld ag ef.*

Diwedd

www.menterbromorgannwg.cymru
Facebook: Menter Bro Morgannwg
Twitter: @MIBroMorgannwg / #gwylfachyfro

**Nodiadau i Olygyddion**

- *Trefnir Gŵyl Fach y Fro gan Fenter Bro Morgannwg, ar y cyd ag Uwch Swyddog Tafwyl, ac yn dilyn llwyddiant Ffair Tafwyl penwythnos diwethaf, y gobaith ydy y bydd yr ŵyl yma ar Ynys y Barri hefyd yn datblygu ymhellach dros y blynyddoedd nesaf.*
- *Caiff Gŵyl Fach y Fro ei noddi gan Gyngor Bro Morgannwg a Chyngor Celfyddydau Cymru.*
- *Yn dilyn penderfyniad Llywodraeth Cymru i ddiddymu Menter y Fro yn Ionawr 2013, sicrhaodd Menter Caerdydd tendor i ddatblygu ac arwain prosiect yn ymwneud â'r Gymraeg ym Mro Morgannwg. Derbyniodd Menter Caerdydd swm o £30,000 gan Lywodraeth Cymru i ddechrau ar y gwaith o gyd-weithio â phartneriaid lleol yn ogystal â'r awdurdod lleol, a chodi proffil a defnydd yr iaith Gymraeg ym Mro Morgannwg. Sefydlwyd Menter Bro Morgannwg yn sgil hynny felly.*
- *Prif nod y Fenter yw i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn gymdeithasol ym Mro Morgannwg, ac i gynnig a chreu cyfleoedd i blant, pobl ifanc ac oedolion i ddefnyddio'u Cymraeg y tu allan i furiau'r ysgol ac oriau gwaith, ac fe fydd cynnal yr ŵyl hollol gynhwysol yma ar lannau Ynys y Barri, sydd mor boblogaidd yn ystod misoedd yr haf yn enwedig, yn ffordd effeithiol tu hwnt o godi proffil yr iaith Gymraeg ymysg trigolion y Sir a thu hwnt.*

Am fwy o wybodaeth: sian@menterbromorgannwg.org / 029 20689888
Prif Weithredwr Menter Bro Morgannwg
www.menterbromorgannwg.cymru

MENTER IAITH
BRO MORGANNWG
HYRWYDDO'R
GYMRAEG YM MRO MORGANNWG
PROMOTING THE WELSH LANGUAGE
IN THE VALE OF GLAMORGAN

**NO EMBARGO – TO BE PUBLISHED IMMEDIATELY**

# PRESS RELEASE:

**LOOKING FORWARD TO GŴYL FACH Y FRO!**

With only 3 days to go until Gŵyl Fach y Fro 2015, the organisers are very much looking forward to staging a Welsh music festival on Barry Island this Saturday. The weather promises to be glorious, and with a musical feast to be enjoyed completely free of charge, what better to do on a sunny Saturday afternoon in July?

Gŵyl Fach y Fro will officially open the Council's 'Barry Island Weekenders' programme, and is the first time for Welsh performances to be included in this programme of summer events. Gŵyl Fach y Fro is organised by Menter Bro Morgannwg, with support from the Vale of Glamorgan Council and Wales Arts Council.

There will be a full day of live music from Wonderbrass, Carwyn Ellis, Kizzy Crawford, Al Lewis and Kookamunga. As well as this, hundreds of children from the Vale's Welsh schools will also take to the stage to perform throughout the day. The full timetable can be seen on the poster that has been attached.

Menter Bro Morgannwg has also established 'Gigs Bach y Fro' over the last year, which is a calendar of music, comedy and literature gigs held regularly across the Vale, and the intention is to stage this annual festival as a further celebration and pinacle to this project, by introducing Welsh music to an even wider audience.

Bethan Elfyn said:

*The announcement about Gŵyl Fach y Fro 2015 is a very exciting development for the area. It is great that Welsh music has a new platform like this in the Vale of Glamorgan, and as a resident of the Vale, I am very much looking forward to have an event like this on my doorstep. The line-up includes some of the Welsh music scene's most prominent artists, and their performances will offer a lovely soundtrack to this unique festival on Barry Island.*

The festival is held on Barry Island's eastern promenade – which has undergone significant regeneration over the last few years – and the new attractions, including colourful new beach huts, will give a striking and unique backdrop to Gŵyl Fach y Fro.

Councillor Chris Elmore has also welcomed the introduction of this new event:

*We are justifiably proud of our summer events on Barry Island, which has a growing reputation as a result of its varied programme throughout the summer holidays. The partnership with Menter Bro Morgannwg will widen the programme even further and will allow local schools and organisations to be centre stage. It will also allow us to promote further the use of Welsh language within the Vale whilst at the same time promoting Barry Island as a wonderful place to visit.*

End

www.menterbromorgannwg.cymru
Facebook: Menter Bro Morgannwg
Twitter: @MIBroMorgannwg / #gwylfachyfro

**Notes for Editors**

- *Gŵyl Fach y Fro is organised by the Vale's Welsh language initiative, Menter Bro Morgannwg, with the assistance of the Tafwyl Officer, and following the success of the Tafwyl Fair last weekend, the intention is to develop this festival on Barry Island further over the next few years.*
- *Gŵyl Fach y Fro means 'Little Festival of the Vale' in Welsh.*
- *Gŵyl Fach y Fro is sponsored by the Vale of Glamorgan Council and the Arts Council of Wales.*
- *Following the Welsh Government's decision to abolish Menter y Fro in January 2013, Menter Caerdydd secured the tender to develop and lead a project concerning the Welsh language in the Vale of Glamorgan. Menter Caerdydd received a sum of £30,000 from the Welsh Government to begin the work of co-operating with local partners as well as the local authority, and to raise the profile and use of the Welsh language in the Vale of Glamorgan. Menter Bro Morgannwg was consequently established.*
- *Menter Bro Morgannwg's primary aim is to increase the social use of the Welsh language in the Vale, and create opportunities for the County's people to use the language outside school and work hours, and holding this all-inclusive event on the shores of Barry Island, which is such a popular attraction during the summer especially, is a very effective way of raising the profile of the Welsh language amongst citizens from the Vale and afar.*

For more information: sian@menterbromorgannwg.org / 029 20689888
Menter Bro Morgannwg Chief Executive
www.menterbromorgannwg.cymru